

**REPORT OF CHIEF EXECUTIVE**

---

**SUBJECT: ANNUAL AUDIT LETTER 2018-19**

The Auditor General for Wales' Annual Audit letter details his statutory responsibilities under the Public Audit (Wales) Act 2004 and the Code of Audit Practice.

**Recommendation**

**Members are asked to NOTE the Annual Audit Letter.**

Background Documents

None

*(For further information, please contact Richard Griffiths Ext 4815)*



24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan  
Cardiff / Caerdydd  
CF11 9LJ  
Tel/Ffôn: 029 2032 0500  
Fax / Ffacs: 029 2032 0600  
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660  
[info@audit.wales](mailto:info@audit.wales) / [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru)  
[www.audit.wales](http://www.audit.wales) / [www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)

Mr Tegryn Jones – Prif Weithredwr  
Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro  
Parc Llanion  
Doc Penfro  
Sir Benfro  
SA72 6DY

**Cyfeirnod:** 1590A2019-20

**Dyddiad cyhoeddi:** 3 Rhagfyr 2019

Annwyl Tegryn

## Llythyr Archwilio Blynyddol - Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro 2018-19

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n codi o'm cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

### Cydymffurfiodd yr Awdurdod â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adroddiadau ariannol a'r defnydd o adnoddau

Cyfrifoldeb yr Awdurdod yw:

- sefydlu systemau rheolaeth fewnol er mwyn sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- paratoi Datganiad o Gyfrifon yn unol â'r gofynion perthnasol; a
- sefydlu a chadw golwg ar drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Awdurdod i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau; a
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau archwiliad y cyfrifon.

### **Rhoddais farn archwilio ddiamed ar 30 Gorffennaf 2019**

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar gyfer Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Yn unol â'r dyddiad cau statudol diwygiedig ar gyfer cyhoeddi'r cyfrifon a archwiliwyd, rhoddwyd barn archwilio ddiamed ar y datganiadau cyfrifyddu gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa a thrafodion ariannol yr Awdurdod ar 30 Gorffennaf 2019. Hysbyswyd yr Awdurdod am y materion allweddol a gododd o archwiliad y cyfrifon yn fy adroddiad ar Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol ar 25 Gorffennaf 2019.

### **Rwyf yn fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau**

Mae fy ystyriaeth o drefniadau'r Awdurdod i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi'i seilio ar:

- y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon blynyddol;
- y gwaith archwilio a gwblhawyd gan yr Archwilydd Cyffredinol dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur);
- y gwaith archwilio a wnaed mewn ymateb i gwestiynau neu wrthwynebiadau i'r cyfrifon a godwyd gan etholwyr dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004; ac
- adolygiad o sefyllfa ariannol gyffredinol yr Awdurdod.

### ***Y gwaith a wnaed dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009***

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn adrodd ar ei gyfrifoldebau dan y Mesur yn ei Adroddiad Gwella Blynyddol. Cyhoeddodd adroddiad 2019 ar 24 Ebrill 2019 Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at effeithiolrwydd y trefniadau hyn a ble y gellid gwneud gwelliannau. Er na wnaed argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella, tynnodd yr Archwilydd Cyffredinol sylw at rai cynigion ar gyfer gwella y mae angen eu datblygu yn ystod y flwyddyn hon.

### ***Cwestiynau a gwrthwynebiadau etholwyr***

Ni dderbyniais gwestiynau na gwrthwynebiadau ffurfiol i gyfrifon 2018-19.

### ***Sefyllfa Ariannol Gyffredinol***

Mae'r cronfeydd wrth gefn a gedwir gan yr Awdurdod wedi cynyddu'n sylweddol dros y tair blynedd ddiwethaf, o ganlyniad i grantiau ychwanegol annisgwyl gan Lywodraeth Cymru a dderbyniwyd ar ddiwedd y flwyddyn. Yr her i'r Awdurdod, yn y tymor canol, yw defnyddio'r grantiau hyn o fewn cyd-destun gostyngiad yn y cyllid craidd. Mae ystyried balansau cronfeydd wrth gefn yn ofalus a sut y gellid eu defnyddio i gynorthwyo cynlluniau ariannol yn neilltuol o bwysig gan nad yw'n gynaliadwy i ddibynnu ar gronfeydd wrth gefn i gynnal costau sy'n mynd ymlaen yn barhaus. Unwaith mae cronfeydd wrth gefn wedi cael eu defnyddio, rhaid canfod ffynonellau ariannol eraill neu arbedion. Ceir manylion pellach am fy nadansoddiad yn yr atodiad i'r llythyr hwn.

## Rhoddais dystysgrif yn cadarnhau bod archwiliad y cyfrifon wedi'i gwblhau ar 30 Gorffennaf 2019

Ni dderbyniais gwestiynau na gwrthwynebiadau gan etholwyr ynghylch archwiliad 2018-19. Ar ôl rhoi barn archwilio ar y datganiadau ariannol a dod i gasgliad ynghylch trefniadau'r Awdurdod i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau, roeddwn yn gallu tystio bod yr archwiliad wedi'i gwblhau pan gyhoeddais fy marn archwilio.

Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2018-19 fod yn unol â'r ffi y cytunwyd arni ac a nodir yn y Cynllun Archwilio Blynyddol.

Yn gywir



**Anthony Veale**

**Ar gyfer ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru**

cc Richard Griffiths

## Atodiad: Sefyllfa Ariannol Gyffredinol


Mae cyllido cyni yn dal i fod yr her fwyaf sylweddol sy'n wynebu pob awdurdod parc cenedlaethol yng Nghymru. Mae'r pwysau ariannol hyn yn debygol o barhau yn y tymor canol.

Yn 2018-19, cynhyrnod yr awdurdod ddiffyg ar ddarparu gwasanaethau o £410,000 (£182,000 oedd gwarged 2017-18).

Mae **Arddangosyn 1** isod yn nodi bod cyllid craidd yr Awdurdod o grant ac ardoll parc cenedlaethol wedi gostwng yn sylweddol ers 2014-15. Mae effaith y gostyngiadau blynyddol wedi cael ei gwrthbwysu yn 2016-17, 2017-18 a 2018-19 gan ddyfarniadau grant ychwanegol Llywodraeth Cymru a dderbyniwyd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

### Arddangosyn 1: Cyllid craidd a grantiau ychwanegol


Mae'r cyllid craidd o grant ac ardoll parc cenedlaethol wedi gostwng yn sylweddol ers 2014-15. Cafodd hyn ei wrthbwysu gan gyllid grant ychwanegol ar ddiwedd 2016-17, 2017-18 a 2018-19.



Ar y sail fod y cyllid grant ychwanegol heb ei gynllunio, mae cronfeydd wrth gefn yr Awdurdod wedi cynyddu yn y blynyddoedd hyn. Cedwir y cyllid hwn fel cronfeydd wrth gefn wedi eu clustnodi hyd nes y'u defnyddir i gyllido gwariant.

## Arddangosyn 2 Cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio

Mae cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio wedi cynyddu o dros £3.3 miliwn rhwng 2014-15 a 2018-19 oherwydd cyllid grant ychwanegol yn 2016-17, 2017-18 a 2018-19.



Mae ystyried balansau cronfeydd wrth gefn yn ofalus a sut y gellid eu defnyddio i gynorthwyo cynlluniau ariannol yn neilltuol o bwysig gan nad yw'n gynaliadwy i ddibynnu ar gronfeydd wrth gefn i gynnal costau sy'n mynd ymlaen yn barhaus. Unwaith mae cronfeydd wrth gefn wedi cael eu dileu, rhaid canfod ffynonellau ariannol eraill neu arbedion. Yr her i'r Awdurdod yw sut i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn a gynhyrchwyd drwy dderbyn grantiau annisgwyl yng nghyd-destun cyllideb graidd sydd wedi lleihau.

Byddwn yn parhau i fonitro sefyllfa ariannol yr Awdurdod a'i gynlluniau i ddefnyddio'r cronfeydd wrth gefn hyn.